



Mynd i gael prawf sgrinio serfigol am ddim y GIG – fe allai achub eich bywyd

Os ydych chi'n fenyw 25-64 oed, mae'r wybodaeth yma i chi.

- Mae mynd i gael prawf sgrinio serfigol yn lleihau'r siawns y gallwch chi gael cancer gwddf y groth.
- Mae menywod rhwng **25 a 49 oed** yn cael gwahoddiad am brawf sgrinio bob **tair blynedd**. Mae menywod rhwng **50 a 64 oed** yn cael eu gwahodd bob **pum mlynedd**.
- Feirws o'r enw'r Feirws Papiloma Dynol (HPV) sy'n achosi'r mwyafrif o achosion o ganser gwddf y groth, ac mae'r feirws yn cael ei drosglwyddo yn ystod cyswllt rhywiol. Mae HPV yn gallu achosi newidiadau yn y celloedd ar y serfics sy'n gallu troi'n ganser.

Gwybodaeth am y prawf

- Mae'r prawf sgrinio serfigol yn cael ei wneud ym meddygfa eich meddyg teulu neu mewn rhai clinigau iechyd rhywiol.
- Pan mae'n bryd i chi gael prawf sgrinio serfigol, byddwch yn cael llythyr a thaflen yn y post, a chais i drefnu apwyntiad. Bydd y wybodaeth yn eich helpu i benderfynu ydych chi'n awyddus i gymryd rhan.
- Mae prawf taeniad yn golygu defnyddio brwsh meddal i dynnu sampl o gelloedd o'r serfics (gwddf y groth). Mae'r prawf yn syml a chyflym.
- Os bydd newidiadau neu feirws HPV i'w gweld, byddwch chi'n cael eich gwahodd i gael mwy o brofion.
- Fel pob prawf meddygol, nid yw'r prawf sgrinio serfigol yn gwbl gywir 100% o'r amser.

Y pethau gallwch chi eu gwneud

- Cymerwch ran yn y rhaglen sgrinio serfigol. Dewch i unrhyw apwyntiadau dilynol os byddwch chi'n cael eich gwahodd.
- Rhowch y gorau i smygu. Mae smygu'n gallu cynyddu'r risg o gael cancer gwddf y groth.
- Mae'n bwysig eich bod yn mynd at eich meddyg teulu os byddwch yn sylwi ar redlif anarferol o'r wain, poen yn ystod rhyw neu ar ôl rhyw, gwaedu rhwng eich mislifoedd neu waedu ar ôl y menopos.

I ddysgu mwy cysylltwch â'r swyddfa sgrinio yn eich ardal:

De-ddwyrain Cymru
029 2078 7920

De-orllewin Cymru
01792 607478

Gogledd Cymru
01352 803248